Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Adroddiad Arolygu ar gyfer

The Old Vicarage

Pen-y-bont ar Ogwr

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

14/03/2023

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.
Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk
Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

The Old Vicarage

Y math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth Cartref Gofal Gofal Heb Nyrsio i Oedolion
Darparwr Cofrestredig	Values in Care Ltd
Lleoedd cofrestredig	4
Iaith y gwasanaeth	Saesneg
Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	10.8.2021
A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?	Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru.

Crynodeb

Mae'r bobl yn byw bywydau hapus a boddhaus yn The Old Vicarage. Mae'r tîm o staff ymroddedig a phroffesiynol am wneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau'r bobl, ac mae'r bobl maent yn eu cefnogi yn ganolog i'r gwasanaeth. Mae pob gweithiwr gofal yn dangos gwybodaeth drwyadl am y bobl sy'n cael cymorth. Mae gan y staff ddealltwriaeth glir o anghenion y bobl ac maent yn darparu gofal â chynhesrwydd, urddas a pharch. Mae'r dogfennau gofal yn drylwyr ac yn gadarn, ac mae tystiolaeth bod y gwasanaeth yn manteisio ar gymorth allanol yn ôl yr angen. Caiff y bobl ofal mewn amgylchedd dymunol sy'n ddiogel ac yn diwallu eu hanghenion. Mae'r rheolwr a'r tîm o staff yn ymdrechu i ddatblygu gofal a chymorth y bobl lle bynnag y bo'n bosibl. Mae'r gweithwyr gofal yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan y rheolwr, ac maent yn cael hyfforddiant sy'n berthnasol i'w rolau. Mae'r tîm staff yn sicrhau bod y bobl yn cael eu cynnwys yn llawn yn y trafodaethau am eu gofal. Mae'r bobl yn cael eu hannog i wneud dewisiadau bob dydd o ran sut maent yn byw eu bywyd, ac i wneud y pethau sy'n bwysig iddynt. Mae sianeli cyfathrebu da yn amlwg, a chaiff ansawdd y gofal y mae'r bobl yn ei gael ei fonitro mewn modd cadarn gan yr Unigolyn Cyfrifol.

Llesiant

Mae'r bobl yn The Old Vicarage yn ddiogel ac wedi'u hamddiffyn rhag camdriniaeth. Mae proses recriwtio gadarn ar waith sy'n sicrhau bod y gweithwyr gofal yn addas ar gyfer eu rolau. Mae rhaglen barhaus o hyfforddiant a datblygiad ar waith yn sicrhau bod y gweithwyr gofal yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth i ddarparu gofal o safon. Gall y gweithwyr gofal gael gafael ar bolisïau a gweithdrefnau sy'n ategu arferion diogelu ac maent yn gwybod sut i roi gwybod am bryderon. Caiff meddyginiaeth ei storio a'i rhoi'n ddiogel fel y'i rhagnodwyd. Mae'r trefniadau llywodraethu yn galluogi'r rheolwyr i oruchwylio digwyddiadau, damweiniau a materion diogelu.

Mae'r unigolion yn byw mewn llety addas sy'n cefnogi ac yn annog eu llesiant. Mae eu hystafelloedd yn cynnwys eitemau personol o'u dewis a dodrefn addas i annog eu hannibyniaeth a'u galluogi i gael amser preifat. Bu gwelliannau sylweddol i'r amgylchedd ers yr arolygiad blaenorol ac mae atgyweiriadau a nodwyd a gwiriadau iechyd a diogelwch perthnasol yn cael eu cwblhau.

Lle bynnag y bo'n bosibl, mae'r staff yn annog y bobl i fod mor annibynnol â phosibl ac i gael rheolaeth dros eu dewisiadau o ddydd i ddydd. Mae gweithwyr gofal medrus yn rhoi gofal i ddiwallu anghenion yr unigolion sy'n byw yn y cartref. Mae'r gweithwyr allweddol yn gweithio gyda'r bobl i sicrhau eu bod yn cael y cymorth a'r wybodaeth sydd eu hangen arnynt. Mae'r ddogfennaeth ofal o safon dda. Mae'r cynlluniau personol yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae'r bobl yn cael dewis o amrywiaeth o weithgareddau, a gynigir gyda'r nod o hybu cynhwysiant a llesiant.

Mae amrywiaeth o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar gael i'r bobl. Mae gwybodaeth am y ffordd y caiff eu hanghenion o ran eu hymddygiad a'u llesiant meddyliol, corfforol ac emosiynol eu diwallu yn cael ei chynnwys yn eu ffeiliau gofal. Gall yr unigolion gael gafael ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn y gymuned. Mae'r staff gofal yn annog yr unigolion i fyw bywyd iach ac yn eu cefnogi i fynd i apwyntiadau personol.

Mae datganiad o ddiben y cartref yn disgrifio'r gwasanaeth a ddarperir yn gywir ac mae ar gael yn hawdd i bobl a pherthnasau. Mae gan bob person sy'n defnyddio'r gwasanaeth gopi o'r canllaw ysgrifenedig: mae'n rhoi manylion am yr hyn y gallant ei ddisgwyl gan y cartref, yn ogystal â manylion am y broses gwyno pe bai angen iddynt ei defnyddio. Mae gwasanaethau eiriolaeth ar gael i'r bobl pan fyddant am gael cymorth annibynnol mewn perthynas â materion sy'n effeithio arnynt.

Gofal a Chymorth

Mae'r gwasanaeth yn cwblhau cynlluniau personol manwl. Mae cynlluniau'n manylu ar hoffterau, diddordebau ac arferion y bobl. Mae'r dogfennau'n darparu manylion clir am anghenion iechyd meddwl a chorfforol pob unigolyn ac yn rhoi canllawiau i'r staff ar sut i ddarparu cymorth. Mae adolygiadau arferol yn sicrhau bod cynlluniau personol yn parhau i fod yn gywir ac yn gyfredol a bod y bobl yn parhau i dderbyn y lefel gywir o gymorth. Mae un unigolyn wedi derbyn diagnosis newydd yn ddiweddar, a chwiliodd y rheolwr am hyfforddiant penodol i sicrhau ei fod yn cael ei gefnogi yn y ffordd gywir. Mae'r bobl neu eu heiriolwyr yn cymryd rhan yn eu hadolygiadau gofal sy'n sicrhau eu bod yn cael cyfle i roi adborth ar y gofal a'r cymorth a gânt. Cadarnhaodd perthynas ei fod bob amser yn cael ei wahodd i fynychu adolygiadau.

Caiff y bobl gyfleoedd da i dderbyn gwasanaethau iechyd yn ogystal â chymorth i fynychu apwyntiadau. Caiff iechyd a llesiant y bobl eu monitro'n rheolaidd gan y cartref a gwneir atgyfeiriadau priodol i gael cyngor a chymorth proffesiynol yn ôl yr angen. Mae amrywiaeth o weithwyr proffesiynol yn ymweld â'r cartref yn rheolaidd a chaiff tystiolaeth ei chofnodi mewn cynlluniau personol er mwyn diwallu anghenion iechyd a llesiant y bobl. Dywedodd un o'r nyrsys cymunedol wrthym,“*I have no concerns regarding the care, they support X very well*”.

Mae'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth yn cael eu meddyginiaeth fel y'i rhagnodwyd. Mae'r gwasanaeth yn cwblhau gwiriadau, sy'n sicrhau bod meddyginiaeth yn cael ei storio ar dymheredd cywir ac felly'n parhau i fod yn effeithiol. Mae archwiliadau meddyginiaeth yn sicrhau bod y staff yn cynnal arferion da ac yn nodi unrhyw feysydd i'w gwella. Nid oedd unrhyw fylchau na gwallau yn y sampl o gofnodion meddyginiaeth a welsom; caiff meddyginiaeth ei storio'n ddiogel mewn cyfleuster dan glo a chaiff gwiriadau o gyffuriau a reolir a stoc eu rheoli'n effeithiol.

Mae lefelau staffio cyson a phriodol ar waith i ddiwallu anghenion gofal a chymorth y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth. Ceir lefelau staffio da ar gyfer pob shifft, ac mae'r rhan fwyaf o'r staff wedi bod yn gweithio yn y gwasanaeth ers cryn dipyn o amser. Mae'r gweithwyr gofal yn ymateb yn gyflym i unrhyw newid mewn ymddygiad a cheisiadau am gymorth. Mae'r staff yn cefnogi ei gilydd ac yn canmol y gefnogaeth y maent yn ei chael gan eu cymheiriaid ac aelodau o'r tîm rheoli.

Mae'r bobl yn derbyn gofal a chymorth cadarnhaol. Gwelsom y staff gofal yn rhyngweithio mewn modd caredig a chyfeillgar â'r bobl. Mae rhai o'r gweithwyr gofal wedi gweithio yn y gwasanaeth am sawl blwyddyn a gwnaethant sôn sut y maent wedi datblygu cydberthnasau cadarnhaol â'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth. Mae'r staff gofal yn deall pwysigrwydd arferion unigolion ac yn cefnogi'r bobl o ran sut a ble maent yn treulio eu diwrnod. Dywedodd perthynas wrthym “*They are very good, they do care*”.

Yr Amgylchedd

Ar y cyfan, mae'r bobl yn cael cymorth mewn amgylchedd addas. Mae'r cartref yn lân, yn ddiogel, yn gynnes ac yn ddiogel. Mae'r bobl yn ymddangos yn gyfforddus ac yn hapus. Mae'n hawdd symud o gwmpas yr adeilad ac mae'n bosibl y bydd pobl yn dewis y lolfeydd, yr ardal fwyta, yr heuldy i gymdeithasu ynddo, yn ogystal â'r gofod tu allan lle gall y bobl dreulio amser. Mae'r ystafelloedd gwely yn helaeth, wedi'u haddurno'n dda ac wedi'u personoli i adlewyrchu chwaeth a diddordebau personol y preswylydd, gydag eitemau fel addurniadau, dodrefn meddal a ffotograffau. Yn allanol, mae yna ystafell gardd sydd ag ardal synhwyraidd. Mae yna hefyd drampolîn a thrawst cydbwyso mawr y mae'r bobl yn mwynhau eu defnyddio. Ers yr arolygiad blaenorol mae dwy ystafell ymolchi ensuite wedi'u hadnewyddu, mae rhai ystafelloedd wedi'u hailaddurno a charpedi wedi'u hadnewyddu.

Caiff y bobl fudd o ymrwymiad y gwasanaeth i sicrhau arferion diogel. Caiff y bobl eu diogelu rhag ymwelwyr heb awdurdod yn dod i mewn i'r adeilad gan fod yn rhaid i bob ymwelydd ganu cloch y drws ffrynt er mwyn dod i mewn, yn ogystal â chofnodi ei ymweliad yn y llyfr ymwelwyr wrth gyrraedd a gadael. Cedwir cofnodion gofal personol y bobl yn ddiogel a dim ond i weithwyr gofal y maent ar gael.
Caiff sylweddau sy'n beryglus i iechyd eu storio'n ddiogel. Mae'r ffeiliau cynnal a chadw yn dangos bod y cyfleustodau, y cyfarpar a'r nodweddion diogelwch tân yn cael eu harchwilio a'u gwasanaethu'n rheolaidd a'u bod yn gyfredol. Caiff ffeiliau gofal a meddyginiaeth eu cadw dan glo er mwyn sicrhau cyfrinachedd a diogelwch. Mae gan bob unigolyn sy'n byw yn y cartref gynllun personol ar gyfer gadael yr adeilad mewn argyfwng sy'n benodol i'w anghenion cymorth ac mae'r staff yn cynnal ymarferion tân rheolaidd.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r darparwr yn sicrhau bod digon o weithwyr gofal gwybodus a medrus ar gael i ddarparu'r cymorth cywir i'r bobl. Cynhelir gwiriadau cyn cyflogi cyn i gyflogeion newydd ddechrau gweithio: Mae'r rhain yn cynnwys gwirio geirdaon, dogfennau adnabod â llun a gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Mae rhaglen sefydlu'r staff yn gysylltiedig â deilliannau dysgu unigol a 'Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol.' Mae'r rhan fwyaf o'r gweithwyr gofal wedi derbyn yr hyfforddiant hanfodol, diweddaraf. Mae'r gweithwyr gofal yn trafod eu gwaith, yn cadw i fyny â datblygiadau yn y gwasanaeth ac yn trafod unrhyw faterion y dymunant eu codi mewn cyfarfodydd goruchwylio. Dywed y staff eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi. Dywedasant wrthym hefyd eu bod yn gallu siarad â'r rheolwr gan ddweud, "*she is amazing*" a "*She treats everyone brilliantly, she's fantastic*". Dywedodd y gweithwyr gofal y buom yn siarad â nhw wrthym "*I would highly recommend working for the service as I feel they offer great opportunities*", "*It's all good*" ac "*It is challenging but good, the rewards are amazing*".

Gall y bobl gael gafael ar wybodaeth i'w helpu i ddeall y gofal, y cymorth a'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt. Mae'r datganiad o ddiben a'r canllaw i ddefnyddwyr yn disgrifio'n gywir y trefniadau presennol sydd ar waith mewn perthynas â llety'r gwasanaeth, ynghyd â'i broses atgyfeirio a derbyn, y math o ofal a chymorth sydd ar gael a'r ffyrdd y mae'n gweithio tua at ddarparu gwasanaeth Cymraeg. Mae'r datganiad o ddiben hefyd yn cynnwys manylion am drefniadau goruchwylio a hyfforddi'r gwasanaeth ar gyfer y staff gofal.

Mae'r rheolwr yn hysbysu'r cyrff rheoleiddio a'r asiantaethau statudol perthnasol yn briodol pan fydd pryderon a digwyddiadau arwyddocaol a allai effeithio ar lesiant yr unigolion sy'n cael gofal. Gwelsom fod y gwasanaeth yn cyfathrebu mewn modd effeithiol, agored a thryloyw. Gwelsom fod y gwasanaeth yn cyflwyno hysbysiadau i Arolygiaeth Gofal Cymru, yr Awdurdod Lleol a gweithwyr iechyd proffesiynol mewn modd amserol a chyson.

Mae systemau a phrosesau ar waith i fonitro, adolygu a gwella ansawdd y gofal a'r cymorth a roddir. Caiff gwybodaeth am ansawdd y gofal ei chasglu a'i hadolygu at ddibenion gwella. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn crynhoi pob agwedd ar y gwasanaeth mewn ymweliadau rheolaidd ac yn cynhyrchu adroddiad ar ansawdd y gofal bob chwech mis sy'n nodi'r holl welliannau arfaethedig ar gyfer y cartref. Rydym yn gweld bod teuluoedd a gweithwyr proffesiynol yn rhoi adborth cadarnhaol am y gofal a ddarperir.

Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio	
Statws	**Ystyr pob un**
Newydd	Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn.
Adolygwyd	Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf.
Heb Gyflawni	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni.
Cyflawnwyd	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni.

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth		
Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella		
Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G

Dyddiad Cyhoeddi 20/04/2023